| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **22 Mawrth 2018** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc / Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Addysg** |
| **Teitl:** | **Trefniadau Clwstwr Ysgolion** |

1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1 Mae'r adroddiad yn darparu adborth ar ddatblygu proses lle mae modd i ysgolion wneud cais i'r Awdurdod Lleol gael symud clwstwr.

2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1 Yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau ar 15 Mehefin 2017 gofynnodd yr Aelodau i'r swyddogion ystyried datblygu proses a chyflwyno adroddiad ar y canfyddiadau.

3. **Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Bod yr Aelodau yn:

- Ystyried yr wybodaeth a ddarperir
- Trafod sylwadau a chanlyniadau'r gweithgor
- Ystyried yr argymhellion

4. **Manylion yr Adroddiad**

4.1 **Cefndir**

4.1.1 Yn dilyn datblygu Polisi Cludiant i Ddysgwyr 2017 (sy'n dod i rym fis Medi 2018), cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau ar 15 Mehefin 2017. Roedd yr adroddiad hwn yn darparu adborth a gafwyd yn ystod y broses ymgynghori a gynhaliwyd.

4.1.2 Roedd yr adborth yn cynnwys pryder penodol gan Bennaeth a Chorff Llywodraethu Ysgol Bro Cinmeirch (Pentre Llanrhaeadr). Roedd y pryder hwn yn ymwneud â gweithredu elfen newydd o'r polisi, sef darparu cludiant yn ôl disgresiwn i ddisgyblion yn seiliedig ar y berthynas â'r ysgol fwydo, h.y. rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd yn y clwstwr. Mae Atodiad 1 yn amlygu'r adran berthnasol yn y polisi newydd.

4.1.3 Datblygwyd yr elfen hon o Bolisi Cludiant i Ddysgwyr Sir Ddinbych i gefnogi lles disgyblion; gan ganiatáu i garfanau aros gyda'i gilydd wrth bontio i'r ysgol uwchradd yn y clwstwr perthnasol yn Sir Ddinbych.

4.1.4 Roedd Pennaeth a Chorff Llywodraethu Ysgol Bro Cinmeirch yn pryderu y gall yr elfen hon leihau nifer y ceisiadau i'w hysgol, ac y byddai rhieni a gofalwyr yn dewis Ysgol Pant Pastynog (Prion) i sicrhau y gall eu plant dderbyn cludiant am ddim i Ysgol Glan Clwyd.

4.1.5 Roedd Ysgol Bro Cinmeirch hefyd yn pryderu y bydd ceisiadau i Ysgol Pant Pastynog yn cael eu gwneud dan drefniadau yn seiliedig ar ffydd gan ei bod yn Ysgol yr Eglwys yng Nghymru a reolir yn wirfoddol. **Sylwch:** Yn y Polisi Cludiant i Ddysgwyr newydd mae yna hefyd ddarpariaeth gludiant yn ôl disgresiwn ar gyfer addysg ffydd, os mai dyna yw dewis y rhieni/gofalwyr. Fodd bynnag, byddai hyn yn dibynnu ar leoedd sydd ar gael a byddai'r Awdurdod yn lleoli disgyblion yn yr ysgol ffydd arall agosaf os gwneir ceisiadau o'r fath. Mae Atodiad 2 yn amlygu'r adran berthnasol yn y polisi newydd.

4.1.6 Fel rhan o'r ymgynghoriad, cafwyd ceisiadau hefyd i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion Ysgol Bro Cinmeirch i Ysgol Glan Clwyd yn ôl disgresiwn a/neu y dylai'r ysgol fod yn rhan o glwstwr Glan Clwyd.

4.1.7 Yng nghyd-destun y cais hwn a'r pryderon a godwyd, gofynnodd yr Aelodau i'r swyddogion ystyried datblygu proses ar wahân i'w dilyn os yw ysgol yn dymuno newid y trefniadau clwstwr. Felly bu i'r gwasanaeth Cymorth Addysg sefydlu gweithgor, gan wahanodd pob clwstwr i fynychu a thrafod proses o'r fath.

## 4.2 Adborth y Gweithgor

4.2.1 Gofynnwyd am ddau gynrychiolydd o bob clwstwr. Gofynnwyd am gynrychiolwyr amrywiol, gan gynnwys penaethiaid, rheolwyr busnes a chyllid a llywodraethwyr. Gofynnwyd hefyd am gynrychiolwyr o dimau cyllid ysgol a chludiant teithwyr Sir Ddinbych.

4.2.2 Datblygodd y gwasanaeth Cymorth Addysg gwmpas ar gyfer y drafodaeth gychwynnol, ac mae'r ystyriaethau hyn ar gael yn Atodiad 3. Bu i'r gweithgor gwrdd ar 15 Rhagfyr 2017, ac mae sylwadau ac adborth o'r cyfarfod hwn wedi eu cofnodi. Cafwyd ymddiheuriadau gan rai cynrychiolwyr ac nid oed clystyrau Dinbych a Llangollen wedi eu cynrychioli'n llawn.

4.2.3 O ran y drafodaeth gychwynnol, roedd peth syndod bod yr Awdurdod yn ystyried cael proses o'r fath.

4.2.4 Yn ystod y cyfarfod codwyd llawer o bryderon o ran datblygu proses o'r fath. Roedd prif sylwadau'r grŵp yn nodi y dylid *"parhau i ganolbwyntio ar y rhaglen foderneiddio"* ac nad oedd *"angen polisi o'r fath"* oherwydd y gall wrthdaro â dull yr Awdurdod yn yr ardaloedd hyn. O fewn y trefniadau presennol *"mae gan rieni'r rhyddid i ddewis ysgol"* ac *"mae modd i ysgolion ddewis gweithio gydag ysgolion eraill os ydynt yn dymuno, ac mae hynny eisoes yn digwydd"*. Dylai'r Awdurdod barhau i ofyn *"sut y dylai addysg uwchradd edrych yn y dyfodol ac fe ddylem ni*

*gynllunio’n briodol ar gyfer hynny. Safon addysg yn Sir Ddinbych ddylai yrru pethau yn eu blaenau, nid proses fel yr un yma.”*

4.2.5 Ni dderbyniwyd sylwadau cadarnhaol yn ystod trafodaeth y gweithgor ac roedd pawb o'r farn nad oedd angen polisi o'r fath ac y dylid canolbwyntio ar Raglen Moderneiddio Ysgolion Sir Ddinbych.

4.2.6 Fel y gofynnwyd gan yr Aelodau, bu i’r gwasanaeth Cymorth Addysg gynnal y gwaith yma i ystyried datblygu proses. Fel y nodir yn y cwmpas yn Atodiad 3, bu i’r adran gynnal trafodaeth agored ynglŷn â datblygu’r polisi gan ystyried yr holl faterion. Fodd bynnag, mae pryderon y gweithgor yn debyg iawn i bryderon y gwasanaeth Cymorth Addysg; byddai cael proses o’r fath yn mynd yn groes i raglen foderneiddio’r Awdurdod ar gyfer ysgolion.

### 4.3 Argymhellion

4.3.1 Yn dilyn cais gan yr Aelodau, ymchwiliodd y gwasanaeth Cymorth Addysg i’r posibilrwydd o ddatblygu proses o’r fath ar gyfer ysgolion. Fodd bynnag, argymhellir:

- Nad oes angen datblygu polisi o’r fath, gan y byddai yn ôl y gweithgor yn mynd yn erbyn dull cydlynol presennol yr Awdurdod i foderneiddio ysgolion Sir Ddinbych. Wedi dweud hynny, gellid datblygu polisi o’r fath ond byddai angen gwaith, amser ac adnoddau sylweddol i’w ddatblygu, ac wedyn byddai’n rhaid i Archwilio ei adolygu;
- Monitro gweithredu Polisi Cludiant i Ddysgwyr 2017, yn unol â phenderfyniad gwreiddiol y Pwyllgor ar 15 Mehefin 2017. Gall pryderon Ysgol Bro Cinmeirch hefyd ffurfio rhan o’r broses adolygu hwn.
- Bod yr Awdurdod yn ymateb i Bennaeth a Corff Llywodraethu Ysgol Bro Cinmeirch ac yn amlinellu’r uchod

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae’r gwasanaethau a ddisgrifir yma oll yn cefnogi’r flaenoriaeth i wella addysg, yn unol â’r flaenoriaeth o ran pobl ifanc, a Sir Ddinbych yn fan lle mae ar bobl iau eisiau byw a gweithio ynddo a meddu ar y sgiliau i wneud hynny.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Ni argymhellir unrhyw newid yn y broses.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o’r Effaith ar Les a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cynnwys yr Asesiad o’r Effaith ar Les a gwblhawyd fel atodiad i’r adroddiad.

Ni chynhaliwyd asesiad o’r effaith ar les gan nad oedd ei angen fel rhan o’r broses hon.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Darperir yr adroddiad hwn o ganlyniad i gais Aelod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau ar 16 Mehefin 2017.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Gan nad yw'r adroddiad yn argymell newid y broses bresennol nid oes goblygiadau costau ychwanegol i'w hystyried. Er hynny, nodir fod y polisi diwygiedig a adolygwyd gan y gweithgor yn gallu cael ei ddatblygu, er y byddai angen gwaith sylweddol i wireddu hyn a hynny gyda'r adnoddau presennol. Gallai hyn gael effaith ar ddeilliannau allweddol. Cefnogir yr argymhellion yn yr adroddiad.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Yn unol â phenderfyniad gwreiddiol y Pwyllgor ar 15 Mehefin 2017, bydd Polisi Cludiant i Ddysgwyr 2017 yn cael ei fonitro. Gall y pryderon a godwyd gan Ysgol Bro Cinmeirch ffurfio rhan o'r broses hon, fel y nodir yn adran 4.3 uchod.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae adran 7.4.1 o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi gallu a swyddogaethau'r Pwyllgor Archwilio o ran datblygu ac adolygu polisïau.

**Swyddog Cyswllt:**
Pennaeth Gwasanaethau Addysg a Phlant
Rhif ffôn: 01824 708009